

Cyngor pwysig i ymgeiswyr graddedig

- **1** – Neilltuwch ddigon o amser a sylw i'ch ffurflen gais ar-lein. Caiff ei darllen gan aelod o'r tîm recriwtio. Bydd yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i benderfynu a ddylid ystyried eich cais ymhellach. Felly gwnewch yn siŵr bod pob rhan ohoni'n gywir.
- **2** – Gwnewch eich ymchwil. Mae llawer o wybodaeth am ein proses recriwtio ar y wefan hon. Defnyddiwch hi i baratoi eich hun.
- **3** – Meddyliwch am enghreifftiau o'ch profiad academiaidd, eich profiad gwaith neu'ch profiad allgyrsiol sy'n dangos y math o sgiliau ac ymddygiad rydym yn chwilio amdanynt. Meddyliwch am y cymwyseddau rydym yn chwilio amdanynt. Ceir rhagor o wybodaeth am ein fframwaith cymhwysedd yma.
- **4** – Ymchwiliwch yn drwyadl i'n sefydliad. Yn ogystal â'ch helpu i baratoi ar gyfer y broses recriwtio, mae'n rhoi cyfle i chi wneud yn siŵr bod SAC yn addas i chi.
- **5** – Cofiwch fod yr argraff gyntaf yn bwysig, felly mae'r ffurflen gais yn gyfle pwysig i chi werthu eich hun. Cyn i chi gwblhau'r ffurflen, dylech gasglu manylion cywir am eich hanes academiaidd a hanes eich cyflogaeth gan gynnwys unrhyw leoliadau profiad gwaith. Wrth gwblhau'r ffurflen, cofiwch feddwl am y rôl a'r cymwyseddau rydym yn chwilio amdanynt.
- **6** – Darllenwch a dilynwch y cyfarwyddiadau yn ofalus a phrawddarllenwch bopeth rydych yn ei ysgrifennu gan gynnwys gwirio gramadeg a sillafu. Byddwch yn gryno oherwydd gallwch ymhelaethu yn y cyfweiliad. Peidiwch ag ailadrodd datganiadau rydych wedi'u darllen yn ein llyfrynau ac ar y wefan. Peidiwch â bod yn amwys na dweud celwyddau am eich canlyniadau gan y byddwn yn gwirio eich hanes academiaidd yn ddiweddarach yn y broses.
- **7** – Wrth baratoi ar gyfer eich cyfweiliad, dylech feddwl am y meysydd hyn yn ofalus ac ystyried sut rydych wedi dangos yr ymddygiad hwn yn eich bywyd. Gallech fod wedi gwneud hyn drwy waith academiaidd, hobiau, swyddi rhan-amser neu weithgareddau allgyrsiol.
- **8** – Os cewch eich gwahodd i ddod i'r ganolfan asesu, cofiwch mai dyma'ch cyfle i ddangos eich sgiliau a'ch galluoedd a hefyd ddysgu mwy am Swyddfa Archwilio Cymru. Mae llawer o wybodaeth ar y rhyngwrdd am ganolfannau asesu, felly defnyddiwch hyn i baratoi'n dda.
- **9** – Os cewch eich gwahodd i ddod i ganolfan asesu, bydd angen i chi gwblhau'r profion rhesymu rhifyddol a llafar ar-lein. Peidiwch â phoeni am y profion - sicrhewch eich bod yn cymryd amser i baratoi a chwblhau rhai profion ymarferol, a fydd yn sicrhau bod gennych y siawns orau posibl o lwyddo. Gallwch ymarfer sefyll y profion cyn i chi sefyll y rhai gwirioneddol er enghraifft yn www.psychtesting.org.uk, www.shldirect.com a www.savilleconsulting.com. Os oes gennych fynediad cyfyngedig i'r rhyngwrdd, mae'r rhan fwyaf o siopau llyfrau a llyfrgelloedd yn cadw llyfrau sy'n cynnwys profion ymarfer. Efallai y bydd canolfan gyrfaoedd eich prifysgol hefyd yn gallu cynnig deunyddiau ymarfer i chi.

- **10** – Lluniwch restr o gwestiynau rydych am eu gofyn ar ddiwedd y cyfweiliad. Cofiwch, nid ydym yn disgwyl i chi fod yn berffaith ond bydd paratoi ar gyfer rhai o'r cwestiynau hyn yn sicr o'ch helpu i deimlo'n hyderus eich bod wedi gwneud eich gorau glas.

Y ffurflen gais

Er ei bod yn amrywio, mae'r rhan fwyaf o bobl yn treulio tua dwy i dair awr yn cwblhau'r cais. Dylech osgoi copïo a phastio atebion o geisiadau eraill oherwydd ni fydd yn rhoi'r ffocws i'ch cais sydd ei angen arno er mwyn sefyll allan. Mae ein tîm yn edrych ar bob cais yn unigol, ac fel arfer rhaid aros rhai wythnosau i glywed y canlyniad. Fodd bynnag, ar adegau penodol o'r flwyddyn gall gymryd ychydig mwy o amser oherwydd y nifer fawr o geisiadau sy'n cael eu hystyried.

Isod nodir yr hyn fydd ei angen arnoch er mwyn cwblhau eich cais.

Manylion personol

Bydd angen i chi gwblhau eich holl fanylion personol sylfaenol, gan gynnwys cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn cyswllt. Cofiwch eu gwirio'n ofalus oherwydd caiff y manylion hyn eu defnyddio i gysylltu â chi os byddwch yn llwyddiannus.

Cyfle cyfartal

Nid yw'r adran hon yn orfodol, ond fel rhan o ymrwymiad Swyddfa Archwilio Cymru fel cyflogwr cyfle cyfartal, byddem yn gwerthfawrogi'n fawr petaech yn cwblhau ein holiadur. Ni all ein rheolwyr recriwtio weld y data hyn ac nis defnyddir yn y broses ddewis.

Addysg

Mae'r adran hon yn cynnwys manylion eich addysg uwchradd (ysgol/chweched dosbarth), eich addysg uwch (coleg/prifysgol) a'ch addysg ôl-raddedig (gan gynnwys enw'r sefydliad a'r mis a'r flwyddyn y gwnaethoch ddechrau a gorffen ym mhob un).

Cymwysterau

Cofiwch gynnwys eich holl gymwysterau.

Profiad gwaith

Gofynnir i chi restru manylion unrhyw gyflogaeth gan gynnwys enw'r cyflogwr, y dyddiadau roeddech yn gyflogedig a disgrifiad o'ch cyfrifoldebau a'r profiad a'r wybodaeth a gafwyd. Er mwyn sicrhau bod eich cais yn sefyll allan, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi rhannau allweddol o unrhyw rolau a chyflawniadau a bod eich profiad gwaith yn ymwneud â'r rôl rydych yn ymgeisio amdani.

Cwestiynau llai mae'n rhaid ysgrifennu'n rhydd

Rydym yn sylweddoli mai dyma'r cwestiynau nad yw pobl yn eu hoffi! Serch hynny, i ni maent yn ffordd allweddol o wahaniaethu rhwng ymgeiswyr – ac maent yn cynnig cyfle i chi wir sefyll allan. Dylech ganolbwyntio ar y cwestiwn sy'n cael ei ofyn, rhoi ffeithiau a strwythuro eich ateb. A chofiwch sicrhau bod yr ateb a roddwch mor llawn ac uniongyrchol â phosibl. Yn olaf, gwnewch yn siŵr eich bod yn ymdrin â'r pethau sylfaenol ac yn taro golwg dros eich atebion ar y diwedd er mwyn sicrhau nad ydynt yn cynnwys unrhyw wallau gramadegol na gwallau sillafu.

Dewis leoliadau

Disgwylir i bob un o'n cyflogeion fod yn gallu teithio ledled Cymru. Fodd bynnag, fel arfer mae cyflogeion wedi'u lleoli mewn tair prif swyddfa – sef Caerdydd, Penlle'r-gaer (Gorllewin Cymru) ac Ewloe (Gogledd Cymru).

Uwch lwytho CV

Dylech dreulio eich amser yn cwblhau eich cais yn llawn, yn hytrach na'ch CV. Gallwch uwch lwytho eich CV os ydych am wneud hynny. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion byddwn yn gwneud penderfyniad ar sail eich ffurflen gais yn unig.

Cymorth

Ar ôl i chi gwblhau adran o'ch cais bydd tic yn ymddangos yn ei herbyn. Mae'n syniad da ticio adrannau er mwyn sicrhau eich bod yn cwblhau pob un ohonynt a chadw eich cais ar ôl cwblhau pob adran er mwyn osgoi colli unrhyw ran ohono. Peidiwch â chlicio ar fotwm 'back' eich porwr oherwydd, os gwnewch hynny, bydd neges gwall yn ymddangos. Ar ôl i chi gwblhau'r cais yn llawn gallwch ei weld a'i argraffu. Dylech brawfddarllen popeth yn drylwyr cyn i chi ei gyflwyno er mwyn sicrhau eich bod yn fodlon ar bopeth.

Os bydd gennych unrhyw broblemau technegol wrth gyflwyno eich cais, anfonwch neges e-bost at recrwtio.hyfforddai@archwilio.cymru neu ffoniwch 029 2032 0547.